



DEDDF DRWYDDEDU 2003
TRWYDDED ANHEDDAU

Cyngor Sir **Ceredigion** County Council



ydded anheddau

PRM 0639 (08/02/2018)

- Manylion am y safle

Cyfeiriad post y safle, neu os nad oes un, cyfeirnod map ordnans neu ddisgrifiad

MAMA FAY'S

2a PORTLAND ROAD

Tref bost
ABERYSTWYTH

Cod Post
SY23 2NL

Rhif ffôn

Os oes cyfyngiad ar yr amser, y dyddiadau

NID OES CYFYNGIADAU AMSER AR Y DRWYDDED

Gweithgareddau trwyddedadwy a ganiateir gan y drwydded

GWERTHU ALCOHOL – Ar y Safle'n Unig

Yr amseroedd y mae'r drwydded yn caniatáu cynnal gweithgareddau trwyddedadwy

GWERTHU ALCOHOL – Ar y Safle'n Unig

LLUN – SUL: 1000 – 2400 yn ddyddiol

**AMSERAU ANSAFONOL
NOS CALAN – Awr Terfynol 0200**

PENWYTHNOSAU GWYL Y BANC h.y Gwe, Sad, Sul a Llun – Un Awr yn Ychwanegol

DYDD SAN FFOLANT – Un Awr ychwanegol

Oriau agor y safle

LLUN – SUL: 0900 – 0030 yn ddyddiol

**AMSERAU ANSAFONOL
NOS CALAN – I gau am 0230**

PENWYTHNOSAU GWYL Y BANC h.y Gwe, Sad, Sul a Llun – I gau am 0130

DYDD SAN FFOLANT – I gau am 0130

Os yw'r drwydded yn caniatáu cyflenwi alcohol, a yw hyn yn golygu ar gyfer yfed ar y safle neu oddi yno

AR YR EIDDO'N UNIG

**Enw, cyfeiriad (cofrestredig), rhif ffôn ac e-bost (os yw'n berthnasol)
deilydd y drwydded safle**

MR PHILLIP POWELL

**Rhif cofrestredig y deilydd, er enghraifft rhif cwmni, rhif elusen (os yw'n
berthnasol)**

**Enw, cyfeiriad a rhif ffôn Goruchwyliwr Safle dynodedig os yw'r drwydded
safle yn caniatáu cyflenwi alcohol**

MR PHILLIP POWELL

**Rhif trwydded bersonol ac enw'r awdurdod sy'n rhoi'r drwydded bersonol
a ddelir gan y Goruchwyliwr Safle dynodedig os yw'r drwydded safle yn
caniatáu cyflenwi alcohol**

CER 1250

CYNGOR SIR CEREDIGION

Atodiad 1 – Amodau Mandadol

Amodau mandadol os yw'r drwydded yn caniatáu cyflenwi alcohol

- (1) Ni ellir cyflenwi alcohol o dan drwydded safle-
 - (a) ar adeg pan na fydd goruchwyliwr safle dynodedig ar gyfer trwydded safle, neu
 - (b) ar adeg pan na fydd gan y goruchwyliwr safle dynodedig drwydded bersonol neu pan fydd ei drwydded bersonol wedi'i hatal.
- (2) Mae'n rhaid i unrhyw alcohol a gyflenwir o dan y drwydded safle gael ei gyflenwi neu ei awdurdodi gan berson sydd â thrwydded bersonol.

Amod Mandadol pan fo'r Drwydded Safle yn cynnwys Amod bod yn rhaid i un neu ragor o unigolion fod yn yr adeilad i gyflawni dyletswyddau diogelwch ar amseroedd penodol:

- (1) Mae'n rhaid i bob unigolyn o'r fath fod wedi'i drwyddedu gan yr Awdurdod Diwydiant Diogelwch.
- (2) Ond nid oes unrhyw beth yn (1) uchod sy'n golygu bod yn rhaid gorfodi'r fath amod—
 - (a) o ran safleoedd sydd ym mharagraff 8(3)(a) o Restr 2 y Ddeddf Diwydiant Diogelwch Personol 2001 (c. 12) (safleoedd sydd â thrwydded safle sy'n caniatáu dramâu neu ffilmiau), neu
 - (b) o ran safleoedd mewn perthynas ag—
 - (i) unrhyw achlysur a grybwyllir ym mharagraff 8(3)(b) neu (c) o'r Rhestr honno (safleoedd a ddefnyddir yn gyfan gwbl gan glwb sydd â thystysgrif clwb, o dan rybudd digwyddiad drosdro sy'n caniatáu dramâu neu ffilmiau neu o dan drwydded gamblo), neu
 - (ii) unrhyw achlysur sydd ym mharagraff 8(3)(d) o'r Rhestr honno (achlysuron wedi'u pennu gan reoliadau o dan y Ddeddf honno).
- (3) At ddibenion yr adran hon—
 - (a) mae "gweithgaredd diogelwch" yn golygu gweithgaredd y mae paragraff 2(1)(a) o'r Rhestr honno yn berthnasol iddo, ac
 - (b) mae paragraff 8(5) o'r Rhestr honno (dehongli cyfeiriadau at achlysur) yn berthnasol gan ei bod yn berthnasol o ran paragraff 8 o'r Rhestr honno.

Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2014

Yn effeithiol o 6 Ebrill 2014

1. Rhaid i berson perthnasol sicrhau na chaiff unrhyw alcohol ei werthu na'i gyflenwi i'w yfed ar y safle nac oddi arno am bris sy'n llai na'r pris a ganiateir.

2. At ddibenion yr amod a nodir ym mharagraff 1-

(a) mae "treth" i'w dehongli yn unol â Deddf Trethi ar Ddiodydd Alcoholaidd 1979(6);

(b) "y pris a ganiateir" yw'r pris a geir drwy ddefnyddio'r fformiwla –

$$P = D + (D \times V)$$

pan mai –

(i) P yw'r pris a ganiateir

(ii) D yw cyfradd y dreth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol fel pe bai'r dreth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol, a

(iii) V yw cyfradd y dreth ar werth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol fel pe bai'r dreth ar werth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol

(c) ystyr "person perthnasol", mewn perthynas â safle lle y mae trwydded safle mewn grym, yw –

(i) Deiliad y drwydded safle,

(ii) Goruchwylydd dynodedig y safle (os oes un) mewn perthynas â thrwydded o'r fath, neu

(iii) Deiliad trwydded bersonol sy'n cyflenwi alcohol o dan drwydded o'r fath neu sy'n caniatáu iddo gael ei gyflenwi;

(d) ystyr "person perthnasol", mewn perthynas â safle lle y mae tystysgrif safle clwb mewn grym, yw unrhyw un o aelodau neu swyddogion y clwb sy'n bresennol ar y safle mewn rôl sy'n galluogi'r aelod neu'r swyddog i atal y cyflenwad o dan sylw; ac

(e) ystyr “treth ar werth” yw treth ar werth sy’n daladwy yn unol â Deddf Treth ar Werth 1994(7)

3. Os nad yw'r pris a ganiateir a roddir gan Baragraff (b) o baragraff 2 (ar wahân i'r paragraff hwn) yn rhif cyfan o geiniogau, rhaid cymryd mai'r pris a roddir gan yr is-baragraff hwnnw yw'r pris a roddir mewn gwirionedd gan yr is-baragraff hwnnw wedi'i dalgrynnu i fyny i'r geiniog agosaf.
4. (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys os yw'r pris a ganiateir gan Baragraff (b) o baragraff 2 ar y naill ddiwrnod (“y diwrnod cyntaf”) yn wahanol i'r pris a ganiateir ar y diwrnod nesaf (“yr ail ddiwrnod”) o ganlyniad i newid i gyfradd y dreth neu'r dreth ar werth.

(2) Mae'r pris a ganiateir sy'n gymwys ar y diwrnod cyntaf yn gymwys i werthiant neu gyflenwad alcohol sy'n digwydd cyn i'r cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau ar yr ail ddiwrnod ddod i ben.

Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) (Diwygio)
2014

Mae'r Amodau Gorfodol isod yn **disodli** Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2010 a daethant i rym ar **1 Hydref 2014**.

Mae amodau 1 i 4 yn cyfeirio at yr holl safleoedd sy'n gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle. Mae amod 3 yn berthnasol i safleoedd sy'n gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle.

1. (1) Rhaid i'r person cyfrifol sicrhau nad yw staff ar y safle perthnasol yn ymgymryd â, yn trefnu neu'n cymryd rhan mewn unrhyw hyrwyddo anghyfrifol mewn perthynas â'r safle.

(2) Yn y paragraff hwn, mae hyrwyddo anghyfrifol yn golygu un neu fwy o'r gweithgareddau a ganlyn, neu weithgareddau sy'n sylweddol debyg, sy'n digwydd er mwyn hyrwyddo gwerthiant neu gyflenwad o alcohol i'w yfed ar y safle -

(a) gemau neu weithgareddau eraill sy'n gofyn am neu'n hybu, neu sydd wedi'u dylunio i ofyn neu i hybu unigolion i -

(i) yfed swm o alcohol o fewn cyfyngiad amser (heblaw yfed alcohol a werthwyd neu a gyflenwyd ar y safle cyn terfyn y cyfnod y mae'r unigolyn cyfrifol wedi'i awdurdodi i werthu neu gyflenwi alcohol), neu

(ii) yfed cymaint o alcohol â phosib (un ai mewn cyfyngiad amser neu fel arall);

(b) darparu swm diddiwedd neu amhenodol o alcohol am ddim neu am bris penodedig neu ar ddisgownt i'r cyhoedd neu i grŵp a gaiff ei ddiffinio gan nodwedd benodol sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;

(c) darparu alcohol am ddim neu ar ddisgownt neu unrhyw beth arall fel gwobr i annog neu i wobrwyo prynu ac yfed alcohol dros gyfnod o 24 awr neu lai mewn modd sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;

(d) gwerthu neu gyflenwi alcohol mewn cysylltiad â phosteri neu bamffledi ar, neu yng nghyffiniau'r safle, a ellir ei ystyried yn rhesymol fel ei fod yn caniatáu, neu'n annog neu'n cyfeirio at effeithiau meddwdod ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn modd ffafriol;

(e) unigolyn yn tywallt alcohol yn uniongyrchol i geg unigolyn arall (heblaw pan fo unigolyn yn methu yfed heb gymorth oherwydd anabled).

2. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau fod dŵr yfed am ddim yn cael ei ddarparu ar gais i gwsmeriaid pan fod hyn ar gael yn rhesymol.

3. (1) Rhaid i ddeilydd y drwydded eiddo neu ddeilydd y dystysgrif eiddo clwb sicrhau y gweithredir polisi gwirio oed ar y safle mewn perthynas â gwerthu neu gyflenwi alcohol.

(2) Rhaid i oruchwyliwr dynodedig y safle mewn perthynas â'r drwydded eiddo sicrhau bod gwerthiant alcohol ar y safle yn digwydd yn unol â'r polisi gwirio oed.

(3) Rhaid i'r polisi fynnu bod unigolion sy'n edrych dan 18 oed i'r person cyfrifol (neu'r oed hŷn a nodir yn y polisi) ddangos ar gais, cyn cael prynu alcohol, tystiolaeth yn cynnwys eu llun, dyddiad geni a naill ai -

(a) marc holograffig, neu

(b) nodwedd uwchfioled.

4. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau -

(a) os caiff unrhyw un o'r diodydd alcoholig canlynol eu gwerthu neu eu cyflenwi i'w hyfed ar y safle (heblaw am ddiodydd alcohol sy'n cael eu gwerthu neu eu cyflenwi ar ôl eu gwneud yn barod i'w gwerthu mewn cynhwysydd wedi'i gau'n ddiogel), bydd yr alcohol ar werth i gwsmeriaid yn y mesurau a ganlyn -

(i) cwrw neu seidr: ½ pint;

(ii) jin, rym, fodca neu wisgi: 25 ml neu 35 ml; a

(iii) gwin llonydd mewn gwydryn: 125 ml;

(b) caiff y mesurau hyn eu dangos mewn bwydlen, ar restr brisiau neu ddeunydd printiedig arall sydd ar gael i gwsmeriaid ar y safle; a

(c) lle nad yw cwsmer, mewn perthynas â gwerthiant alcohol, yn manylu ar y swm o alcohol i'w werthu, bydd y gwerthwr yn hysbysu'r cwsmer fod y mesurau hyn ar gael.

Atodiad 2 – Amodau sy'n gyson â'r Rhestr weithredu

a) Cyffredinol

Bydd staff yn derbyn cyfarwyddiadau ynghylch amserau ac amcanion y rhaglen weithredu.

b) Atal Troseddau ac Anhrefn

Ni fyddwn yn goddef ymddygiad meddw. Gofynnir i bobl sy'n afreolus i adael hefyd. Byddwn yn mabwysiadu polisi cadarn ar werthu alcohol i bobl dan oed.

c) Diogelwch Cyhoeddus

Byddwn yn sicrhau bod ein safle'n gweithredu mewn modd diogel. Byddwn hefyd yn rhoi ystyriaeth i ddiogelwch tân. Bydd pecyn Cymorth Cyntaf ar gael. Hefyd, bydd gennym yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a byddwn yn rhoi gwybod i'n hyswirwyr am ein rhaglen weithredu.

d) Atal niwsans cyhoeddus

Byddwn yn gweithredu fel bwyty, a bydd alcohol yn ategiad i'r bwyd. Gall cerddoriaeth fyw gael ei chwarae'n achlysurol gan ddefnyddio'r cymal eithrio yn y Ddeddf Cerddoriaeth Fyw. Byddwn yn sicrhau na fydd unrhyw sŵn i'w glywed o'r tu allan.

e) Amddiffyn plant rhag niwed

Bydd staff yn cael cyfarwyddyd i beidio â gwerthu alcohol i unrhyw un dan 18 oed. Byddant yn gofyn am ddogfen adnabod gyda llun oddi wrth unrhyw rai y tybir eu bod dan 21ain oed. Os oes yna amheuaeth, ni fyddant yn eu serfio.

Atodiad 3 – Amodau yn atodedig yn sgil gwrandawriad gan yr awdurdod trwyddedu/cyfarfod cyfryngu

Atodiad 4 – Cynlluniau

NICKS RESTAURANT 2A PORTLAND RD
ABERYSTWYTH SY23 2NL

